



# Pen Dwfn Cymru

## Maniffesto

Etholiad Senedd Cymru 2026

- Cyllid teg ar gyfer Meddygfeydd yn y Pen Dwfn
- Mwy o amser i gleifion

# Cyflwyniad

“ Mae'r gofal meddygol sydd ar gael yn tueddu i amrywio yn unol â'r angen amdano yn y boblogaeth sy'n cael ei gwasanaethu. Mae'r ddeddf gofal gwrthgyfartal yn gweithredu'n llawnach lle mae gofal meddygol yn fwyaf agored i rymoedd y farchnad, ac yn llai felly yn y manau sy'n llai agored iddynt. ”

Dr Julian Tudor Hart 1971

Daeth Rhwydwaith Pen Dwfn Cymru i fodolaeth ar ddiwrnod gwlyb a digalon o hydref yn 2022. Aeth Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu yng Nghymru ati i gynnal cyfarfod cychwynnol rhwng y rhai sydd â diddordeb mewn meddygaeth amddifadedd, y rhai sy'n gweithio'n galed yn eu cymunedau, a'r rhai sy'n awyddus i wneud gwahaniaeth i'r Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal.

Mae'r model cyllido presennol ar ein cyfer yn druenus, gyda llai a llai o gyllid yn mynd i'r manau lle mae'r angen mwyaf. Mae ein meddygon teulu yn gweld mwy o gleifion, sy'n gynyddol sâl, gyda llai o allu i reoli eu symptomau.

Rydym yn gweld achosion hwyrach o glefydau difrifol neu angheuol, a nifer uchel o achosion o salwch cronig, gyda mwy o ymyriadau ac ymgynghoriadau mwy heriol yn ofynnol gan dimau ein meddygfeydd i geisio helpu ein cleifion i gadw'n iach.

Mae Pen Dwfn Cymru wedi gweld y cyfeillgarwch mwyaf llawen yn yr ardaloedd hyn, gyda llawer o'n meddygon teulu yn mynd yr ail filltir dros eu cymunedau.

Rydym wedi blino. Mae ein cydweithwyr yn gorweithio mwy, mae mwy o bryder am ein cleifion ac amdanom ni ein hunain, ond rydym yn dal ati, ac mae ein mudiad yn tyfu'n gryfach.

**Os na wnawn ni frwydro dros ein cleifion, pwy wnaiff?**



**Dr Neil James**  
Cadeirydd,  
Pen Dwfn Cymru



**Joanna Watts-Jane**  
Dirprwy Gadeirydd,  
Pen Dwfn Cymru

## Ein mudiad

Cryfderau ein mudiad yw'r ffordd yr ydym yn cyrraedd yn bell i gymunedau. Rydym yn rhyngweithio'n uniongyrchol bob dydd â chleifion ledled Cymru – rydym yn credu bod hyn yn rhoi dilysrwydd i ni, ac arbenigedd cymunedol hyd at 400,000 o gleifion ledled y wlad.

Rydym yn gweithio gyda chymunedau sy'n bwysig yn wleidyddol ac yn gysylltiedig â nhw, hyd yn oed os nad yw eu buddiannau'n cael eu cynrychioli'n effeithiol. Rydym yn gweld cyd-destun gofal iechyd, ac rydym yn deall cymhlethodau'r darlun o iechyd yn y cymunedau hyn.

Rydym wrth ein boddau â'n swyddi, wrth ein boddau â'r gwahaniaeth rydym yn ei wneud, ac rydym eisiau gweld pobl eraill yn ymuno â ni i wella'r gwaith gwerthfawr rydym yn



ei wneud. Gyda buddsoddiad, gallai gofal iechyd yn yr ardaloedd Pen Dwfn drawsnewid a chyflawni'r uchelgais sydd ar waith ledled y wlad.

## Pam mae angen i ni weithredu yn ein cymunedau

Dylai llawer o'n cleifion fod wedi byw bywydau hirach ac iachach.

Mae pobl yn mynd yn sâl yn rhy ifanc ac yn marw'n rhy ifanc, oherwydd yr amgylchiadau y cawsant eu geni iddynt. Mae tlodi yn gwneud pobl yn sâl yn gorfforol ac yn feddyliol. Wrth liniaru effaith y penderfynyddion iechyd hyn, rydym yn ymddiried yn y GIG i fod, o leiaf, yn deg, effeithiol ac effeithlon wrth ddelio â phawb.

Fodd bynnag, mae'r GIG wedi bod yn dadfuddsoddi yn y gwasanaethau sy'n ychwanegu'r gwerth mwyaf at fywyd (gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol) ac rydym wedi bod yn dosbarthu ein buddsoddiad yn annheg (mae'r rhai sydd angen y gofal fwyaf yn llai tebygol o'i gael).

# Y Maniffesto Hwn

Mae ein nodau'n cyd-fynd â rhai Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu, gan ganolbwyntio'n benodol ar gymunedau sydd â'r anghenion gofal iechyd mwyaf.

## Ariannu teg

- Adolygu fformiwla Carr-Hill ar frys
- Dyrannu cyllid sy'n gymesur ag anghenion cleifion
- Cynnal a chryfhau'r Gronfa Capasiti Ychwanegol a'r Gronfa Cynaliadwyedd Ymarfer ond targedu'r rhain tuag at amddifadedd
- Cynnal Asesiadau o Anghenion Gofal Sylfaenol a rhoi dyletswydd statudol ar Fyrddau Iechyd i ymateb
- Dyrannu cyllid Clwstwr sy'n gymesur ag anghenion iechyd y boblogaeth, a buddsoddi mewn meithrin capasiti
- Blaenoriaethu adeiladau rhagorol mewn cymunedau sydd â'r anghenion mwyaf: nid dim ond y brics ond hefyd y bobl sy'n gallu eu rhedeg fel asedau cymunedol pwysig

## Mwy o amser i gleifion

- Buddsoddi mewn digon o feddygon teulu i sicrhau parhad gofal da sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Sicrhau mwy o feddygon teulu mewn cymunedau difreintiedig: uchafswm o 1500 ar y rhestr i bob meddyg teulu llawn-amser a 1200 yn y Pen Dwfn
- Llai o fiwrocratiaeth a mwy o ymddiriedaeth mewn adrodd
- Sicrhau bod gan y GIG ar bob lefel gyllidebau i dalu contractwyr annibynnol i'w galluogi i gyfrannu at waith strategol, fel cynllunio ar gyfer y gaeaf, symud gofal yn nes at y cartref, atal, a Chynlluniau'r Byrddau Iechyd

## Hyfforddiant ac Addysg

- Sefydlu Cynllun Hyfforddi Meddygon Teulu newydd mewn Meddygaeth Amddifadedd
- Sicrhau bod tegwch iechyd yn cael ei gynnwys yn yr holl hyfforddiant i weithwyr iechyd israddedig ac ôl-raddedig
- Mwy o swyddi Cymrodoriaethau Clinigol Academaidd wedi'u neilltuo i feddygfeydd yn y Pen Dwfn
- Blaenoriaethu tegwch iechyd a lleoliadau cymunedol ar gyfer hyfforddiant israddedig ac ôl-raddedig i bob gweithiwr iechyd

## Canolbwyntio ar y gymuned

- Cael Strategaeth Anghydraddoldebau Iechyd ar draws y llywodraeth, i fynd i'r afael â thlodi a phenderfynyddion canlyniadau iechyd gwael
- Darparu Gweithwyr Iechyd Cymunedol mewn meddygfeydd yn y Pen Dwfn
- Gwneud pob buddsoddiad mewn presgripsiynu cymdeithasol yn deg ac wedi'i dargedu tuag at yr angen mwyaf
- Cynyddu gwasanaethau gofal iechyd mewn cymunedau (e.e. nyrs ardal, fferyllfa gymunedol, ymwelwyr iechyd, darpariaeth ambiwlans)

## Llesiant Staff

- Cyflog ac amodau teg i'r holl staff, gan gynnwys staff gweinyddol a staff derbynfa
- Hyfforddiant da ar gael i'r holl staff
- Dulliau gweithredu sy'n ystyriol o drawma ar gyfer yr holl staff er mwyn eu galluogi i ofalu am y cleifion mwyaf cymhleth
- Niferoedd staff i fod yn gymesur ag anghenion cleifion
- Hyfforddiant ar degwch iechyd i dimau staff cyfan
- Gwasanaeth iechyd galwedigaethol i bob tîm

## Model Gofal Sylfaenol

- Dim mwy o feddygfeydd yn y Pen Dwfn yn cau
- Buddsoddi mewn meddygon teulu craidd a rhoi'r gorau i rannu gofal yn ddarnau: mae'r meddyg teulu yn arbenigo ar feddygaeth gyffredinol a'r unig berson yn y tîm gofal sylfaenol sydd â throsolwg llawn o unigolyn a'i deulu a'i gymuned
- Cynlluniau rhagweithiol cenedlaethol ar gyfer cynaliadwyedd meddygfeydd
- Buddsoddi mewn modelau sy'n gweithio i gynnal arferion yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig

# Ein cynigion ar gyfer y Senedd yn 2026

1

## Darparu cyllid teg i feddygfeydd yn ardaloedd y Pen Dwfn

Mae ein hymchwil yn dangos bod incwm meddygfa yn gostwng 1% am bob 10% o gynnydd yn nifer y cleifion sydd wedi cofrestru mewn meddygfa yn y rhannau mwyaf difreintiedig o Gymru. Gall meddygfeydd golli degau o filoedd o bunnoedd y flwyddyn, gan effeithio ar eu gallu i ariannu'r staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Mae hyn er gwaethaf arferion o'r fath sy'n wynebu heriau recriwtio, mwy o alw, mwy o gymhlethdod gan gleifion, a lefelau uwch o amlforbidrwydd. Gallai mynd i'r afael â'r bwlch hwn gostio cyn lleied â £4-6 miliwn y flwyddyn, llai na 0.05% o gyllideb gyfan GIG Cymru.

---

2

## Gweithlu a galw

Mae llawer o weithwyr iechyd wrth eu boddau'n hyfforddi ac yn gweithio mewn meddygfeydd yn y Pen Dwfn, ac mae gweithwyr gofal iechyd yn tueddu i aros yn yr ardal a'r sefydliad y maent wedi hyfforddi ynddynt. Ond nid ydym yn targedu hyfforddiant i ddiwallu anghenion y boblogaeth, felly nid yw pawb a fyddai'n elwa yn cael cyfle i wneud hyn. Credwn y gellid ehangu lleoliadau hyfforddi a symud tuag at gynnis cyfleoedd mewn meddygfeydd yn y Pen Dwfn, a chymhellion i hyfforddi a gweithio mewn ardaloedd mwy difreintiedig.

---

3

## Buddsoddi mewn staff a gwasanaethau yn ardaloedd y Pen Dwfn

Ar hyn o bryd, nid yw gweithluoedd staff yn ardaloedd y Pen Dwfn yn gallu darparu'r parhad gofal sydd ei angen ar gleifion yn yr ardaloedd hyn ac y maent yn ei haeddu. Yn rhy aml, nid oes digon o staff na gallu gan dimau a gwasanaethau amlddisgyblaethol ehangach i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a'r Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal.

Galwn ar y Llywodraeth nesaf i fuddsoddi mewn sicrhau bod digon o gofrestryddion meddygaeth deulu a meddygon teulu, fel bod meddygfeydd yn y Pen Dwfn, er yn anelu at gael uchafswm o 1500 o gleifion ar y rhestr am bob meddyg teulu llawn-amser, yn cael uchafswm o 1200 o gleifion i bob meddyg teulu llawn-amser, i gydnabod yr anghenion ychwanegol a'r galw ar feddygfeydd o'r fath.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Pen Dwfn Cymru:

E-bost: [deependwales@rcgp.org.uk](mailto:deependwales@rcgp.org.uk)

Gwfan: <https://deependcymru.gig.cymru/>

Mae Pen Dwfn Cymru yn ddiolchgar o gael ei gynnal gan Goleg Brenhinol y Meddygon Teulu Cymru, a'i ariannu gan Lywodraeth Cymru.